

Rebecca Evans AS/MS  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-0943-21

Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru

3 Mawrth 2020

Annwyl Llywydd,

### **Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 24(1) and 78(1) o'r Gorchymyn Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ('Deddf 2017') 2017 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 25(2) o Ddeddf 2017 mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn o fewn 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud, heb gynnwys diwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad o bedwar diwrnod neu fwy neu wedi'i diddymu, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 23 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau. a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.